# Evan Roberts, Dinbych, ?1756–1833
## Pregethwr Wesleaidd

Yr oedd Evan Roberts yn gymeriad hynod ac yn arloeswr yn achos y Methodistiaid Wesleaidd yng ngogledd Cymru. Braidd yn niwlog yw hanes dyddiau ei febyd. Tybir iddo gael ei eni yng Nghroesoswallt, yn fab i dafarnwr, sef Evan Roberts a'i wraig Ann, a threuliodd gyfnod o'i blentyndod yng nghyffiniau Pentrefoelas a Chapel Garmon, gerllaw Llanrwst. Daeth i gysylltiad â Christnogaeth pan oedd yn ifanc ond penderfynodd y byddai'n byw bywyd da wedi iddo ymsefydlu mewn gwaith a chartref. Yr oedd yn eithriadol o hoff o chwarae cardiau a phêl-droed ac yn dipyn o ddihareb fel ymaflwr codwm. Fe'i cyflogwyd am gyfnod gan Syr Watkin Wynne, y Foelas, ac yna fe'i prentisiwyd fel saer coed pan oedd yn bedair ar bymtheg oed. Daeth ei frawd William ar ymweliad ag ef o Lerpwl un tro gan ei gymell i fynd i wrando ar y Methodist John Prichard, Bryniog, yn pregethu, a gadawodd y bregeth argraff ddofn arno. O hynny ymlaen byddai'n mynd i wrando ar bregeth yn gyson.

Penderfynodd fudo i Lerpwl gan dderbyn croeso yno gan ei frawd, a glaniodd ei linynnau gyda'r Wesleaid. Cafodd ei ddal ar un achlysur gan *press gang* ond llwyddodd i ddianc. Dychrynodd y profiad hwn ef i'r fath raddau fel y symudodd i Fanceinion am dair blynedd i weithio yn un o ffatrïoedd cyntaf y dref. Pan ddychwelodd i Lerpwl cynorthwyodd yn y gwaith o sefydlu'r achos Cymraeg cyntaf gan y Methodistiaid Calfinaidd yno, trwy rentu hen siop i gynnal cyfarfodydd. Ar y pryd nid oedd yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng Arminiaeth a Chalfiniaeth ond yn raddol daeth yn amheus o Galfiniaeth a bu'n trafod diwinyddiaeth gyda phregethwyr oedd ar ymweliad, megis Thomas Charles. Yr oedd ei gyfyng-gyngor cymaint fel y penderfynodd ymweld â Threfeca ym 1784. Yno cyfarfu ag un o'r arweinyddion, sef Evan Roberts, Minera. Wedyn aeth i goleg yr Arglwyddes Huntingdon gyda'r bwriad o fod yn fyfyriwr. Wedi iddo gael

cyfweliad gan yr Arglwyddes fe'i derbyniwyd fel ymgeisydd a chafodd waith yn adeiladu capel yn Henffordd. Ond yr oedd ei anhapusrwydd yn parhau ac o fewn mis dychwelodd i Fanceinion gan daro heibio Dinbych ar y ffordd. Ym Manceinion cyfarfu â John Wesley a gofynnodd iddo anfon pregethwyr i ogledd Cymru. Pan ddywedodd John Wesley mai dim ond un pregethwr oedd ganddo a fedrai siarad Cymraeg, a bod hwnnw yn Llundain, penderfynodd Evan Roberts roi cynnig arni ei hun. Aeth i Lerpwl gan ddechrau pregethu yn gyson yn y Gymraeg a'r Saesneg yn nhŷ gwraig garedig, a thrwy hynny sefydlwyd achos newydd.

Trodd ei olygon tua Chymru, ac wedi cyrraedd Dinbych pregethodd yn egnïol oherwydd yr oedd hiraeth yn ei galon am ennill pobl i Grist. Un diwrnod aeth am dro a chododd ddarn o rew o'r afon. Daliodd y rhew yn yr haul gan ei wylio'n meirioli a gwelodd hyn fel arwydd y byddai calonnau trigolion Dinbych yn dadmer ym mhelydrau Haul Cyfiawnder. Arhosodd yn Ninbych weddill ei oes gan bregethu yn y dref a'r pentrefi cyfagos, ond gwaith caled ydoedd ar ei ben ei hun ac araf fu'r cynnydd yn nifer yr addolwyr.

Sefydlodd seiat yno tua 1787 gyda dim ond naw o aelodau, a hon oedd seiat Gymraeg gyntaf y Wesleaid. Perswadiodd rai o bregethwyr y Wesleaid yn Lerpwl a Chaer i ddod i Ddinbych ar eu rhawg. Yn y cyfnod hwn priododd â Judith Wynne. Rhoddodd bwysau mawr ar arweinyddion y Wesleaid yn Lloegr i ddarparu pregethwyr Cymraeg, gan bwysleisio na fyddai unrhyw lwyddiant yng Nghymru oni bai eu bod yn gwneud hynny.